

Ar Lan y Môr

Mae'r testun hwn o <http://www.bbc.co.uk/education/guides/zyvk87h/revision/3>

Glenda:

Dydy bwcad heb raw yn da i ddim. Fel dynes yn un lle a'i bywyd hi'n rwla arall. Bwcad a rhaw, bwcad a rhaw. Yno byddwn i ar 'y mhen ôl yn y tywod mewn andros o dwll yn codi cestyll ar hyd yr ymylon a Dad am ei hoedl yn agor ffos o'r twll i'r môr, a'r môr yn gwingo'i hun i mewn i'r ffos a dechra llenwi'r twll. Fi, heno, ydy'r twll. Dwi 'di nghastellu. Bwcad a rhaw.

"Dimbach?" medda Beryl. Ond mi gofiodd ar ôl i ddeud o nad ydach chi fod i ddeud o. Dim ond gneud siâp ceg "....." medda hi ar yr ail dre. Ond yn gywir tro 'ma. Dimbach. Yr enw distawa yn y Gogledd. Dimbach. Yr enw sy'n creu twll mewn brawddeg. "I lle ma' hi 'di mynd?" "....." y lle nad ydyw'n bod.

Ma'r stafell 'ma'n wyn, fel asbrin. Ma'r nyrs yn 'i hôl. Mae'n deud bydd hi nôl i'n newid i toc. Dwi'n cymryd mai i'n newid i o'n nillad y'n hun i ddillad yr hospital mae'n feddwl. Mi fydda unrhyw newid arall yn ormod i'w ddisgwyl. Yn amhosib. Dwi'n cyffwrdd y'n llygada... a dwi'n sylweddoli 'mod i wedi bod yn crio, rywbryd. Ma fama mor bell o'r môr.